**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Cod Trefniadaeth Ysgolion 2026**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheolau Sefydlog 27.14.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Cod Trefniadaeth Ysgolion 2026.

**Lynne Neagle AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**6 Chwefror 2026**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ("y Cod") yn gosod gofynion ac yn cynnwys canllawiau sy'n nodi nodau, amcanion a materion eraill mewn perthynas â threfniadaeth ysgolion ar Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr), a hyrwyddwyr cynigion i sefydlu ysgolion gwirfoddol.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Mae'r Cod yn ystyried ac yn cywiro'r gwallau a amlygwyd yn adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad ar y Cod drafft a osodwyd ar 4 Rhagfyr 2025, SL(6)688[1] , ac a dynnwyd yn ôl yn ddiweddarach ar 2 Chwefror 2026

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae adran 38 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Deddf 2013") yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod Trefniadaeth Ysgolion, y gellir ei adolygu o bryd i'w gilydd.

3.2 Mae adran 39 o Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar ddrafft cyn cyhoeddi Cod. Os ydynt yn dymuno bwrw ymlaen â'r drafft, rhaid iddynt osod y drafft gerbron y Senedd. Os yw'r Senedd, cyn diwedd y cyfnod o 40 o ddiwrnodau, yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r drafft o'r Cod, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â chyhoeddi'r Cod arfaethedig ar ffurf y drafft hwnnw. Os na wneir penderfyniad o'r fath cyn diwedd y cyfnod hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r Cod (neu'r Cod diwygiedig) ar ffurf y drafft a daw'r Cod (neu'r Cod diwygiedig) i rym ar y dyddiad a bennir drwy orchymyn Gweinidogion Cymru.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae'r Cod yn gosod gofynion y mae'n rhaid i'r cyrff perthnasol a restrir uchod gydymffurfio â nhw a'r canllawiau statudol y mae'n rhaid iddynt roi sylw dyledus iddynt, ac mae'n gosod y cyd-destun polisi, yr egwyddorion cyffredinol a'r ffactorau y dylai'r rhai sy'n cyflwyno cynigion i ad-drefnu darpariaeth ysgolion a'r rhai sy'n gyfrifol am gymeradwyo/penderfynu ar gynigion eu hystyried.

4.2 Cyhoeddwyd y cod blaenorol yn 2018, yr ail argraffiad o'r Cod. Mae'r Cod wedi cael ei adolygu ar ôl bod yn weithredol am dros bum mlynedd ac mae nifer o newidiadau wedi eu cynnig. Mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau hyn yn adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi sydd wedi

[1] https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=46912

digwydd ers cyhoeddi ail fersiwn y Cod neu'n atgyfnerthu'r gofynion mewn perthynas â deddfwriaeth a oedd ar waith bryd hynny. Fe'u rhestrir isod:

**Safonau'r Gymraeg**

4.3 Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn pennu safonau mewn perthynas ag ymddygiad cyrff penodol (gan gynnwys Gweinidogion Cymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol). Mae safonau yn cynnwys safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau llunio polisïau, safonau gweithredu, safonau hybu, a safonau cadw cofnodion.

4.4 Mae Atodlen 2 o Reoliadau 2015 yn nodi safonau llunio polisïau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i effeithiau penderfyniadau polisi ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae safonau llunio polisïau 88-97 yn berthnasol i gynigion trefniadaeth ysgolion am fod yn **rhaid** i gyrff gydymffurfio â hwy wrth wneud pob penderfyniad polisi, gan gynnwys cynigion trefniadaeth ysgolion. Mewn perthynas â chynigion statudol, nid yw'r ddyletswydd wedi'i chyfyngu i gynigion mewn perthynas ag ysgolion Cymraeg, mae'n gymwys i gynigion sy'n ymwneud â phob ysgol a gynhelir, ni waeth beth fo'i chategori iaith.

4.5 O dan safonau 91, 92 a 93, **rhaid** i ddogfennau ymgynghori ystyried effaith penderfyniad polisi ar y Gymraeg a hefyd geisio safbwyntiau ynglŷn ag effaith y penderfyniad polisi ar y Gymraeg. Mae'r rhain yn ofynion gwahanol sy'n golygu bod yn rhaid cynnal asesiad effaith ac yna rhaid i gwestiynau gael eu gofyn ynglŷn â'r asesiad hwnnw.

4.6 Mae'r Cod wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r safonau llunio polisïau. Wrth wneud hynny, mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i asesiad o'r effaith ar y Gymraeg gael ei gynnal ar gyfer pob cynnig statudol. Rhaid cynnwys hwn fel rhan o'r ddogfen ymgynghori neu ei gyhoeddi ochr yn ochr â hi.

**Cymraeg 2050**

4.7 Mae'r Cod wedi cael ei ddiwygio i fod yn gyson â *Cymraeg 2050*, sef strategaeth Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg, a'r targedau a bennir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd pob awdurdod lleol sy'n cefnogi'r uchelgais honno. O ystyried pwysigrwydd y sector addysg yn ei gyfanrwydd o ran creu siaradwyr Cymraeg newydd, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r broses o gynllunio a datblygu cynigion trefniadaeth ysgolion adlewyrchu ein huchelgeisiau yn *Cymraeg 2050* a chefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol.

**Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**

4.8 Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (“Deddf 2018”) yn sefydlu’r system statudol yng Nghymru ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol (ADY) plant a phobl ifanc (y system ADY). Mae’n disodli’r system ar gyfer diwallu anghenion addysgol arbennig (AAA) plant mewn ysgolion ac anawsterau a/neu anableddau dysgu (ADD) mewn addysg bellach.

4.9 Cychwynnwyd gweithredu Deddf 2018 o 1 Medi 2021. Cafodd y system ADY ei chyflwyno fesul cam dros gyfnod o bedair blynedd hyd at haf 2025. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd y system ADY yn gweithredu ochr yn ochr â’r system AAA.

**Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021**

4.10 Mae’r Cod wedi cael ei ddiwygio i fod yn gyson â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, sy’n darparu ar gyfer cyflwyno a datblygu’r Cwricwlwm i Gymru i ddysgwyr 3 i 16 oed yng Nghymru.

**Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022**

4.11 Sefydlodd Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (“Deddf 2022”) y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (“y Comisiwn” neu “Medr”). Y Comisiwn yw’r corff rheoleiddio sy’n gyfrifol am gyllido, goruchwylio a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru, gan gwmpasu addysg ôl-16, gan gynnwys darpariaeth chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol. Mae ganddo swyddogaeth i sicrhau y darperir cyfleusterau priodol ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant i ddysgwyr ôl-orfodol 16-19 oed ac i’w cyllido.

4.12 Gwnaeth Deddf 2022 y diwygiadau canlynol i Ddeddf 2013, mewn perthynas â threfniadaeth ysgolion. Cafodd pwerau Gweinidogion Cymru, o dan adrannau 71 i 76 o Ddeddf 2013, i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth, eu dileu. Cafodd pennod 3A newydd ei mewnosod i Ran 3 o Ddeddf 2013 er mwyn galluogi’r Comisiwn i weithredu mewn ffordd fwy strategol, gan gynnig safbwynt ehangach ar ddarpariaeth chweched dosbarth ysgol a sicrhau y gall gefnogi dewis a chynnydd i ddysgwyr.

4.13 Mae awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol yn cadw eu swyddogaethau cyfredol mewn perthynas â chyflwyno cynigion ynglŷn â threfniadaeth chweched dosbarth ysgolion. Nid yw swyddogaethau’r Comisiwn yn arwain at golli unrhyw ddarpariaethau sy’n bodoli eisoes mewn perthynas â chyhoeddi cynigion, ymgynghori arnynt a’r gallu i’w gwrthwynebu ac mae darpariaethau arwyddocaol eraill yn Neddf 2013 yn dal i fod ar waith.

4.14 Mae’r Cod wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu’r newidiadau a wnaed i Ddeddf 2013 gan Ddeddf 2022 mewn perthynas â threfniadaeth ysgolion.

**Newidiadau eraill i'r Cod**

4.15 Mae newidiadau eraill i'r Cod yn cryfhau'r gofynion presennol. Er enghraifft, mae'r Cod yn gosod safon uchel ar gyfer ymgynghori, gan sicrhau bod pawb sydd â diddordeb yn cael cyfle i rannu eu sylwadau, a bod y sylwadau hynny'n cael eu hystyried. Mae'n ofynnol eisoes i gynigwyr gyhoeddi dogfennau allweddol megis y ddogfen ymgynghori, adroddiad ymgynghori, hysbysiad statudol, adroddiad gwrthwynebu a hysbysiad penderfynu ar eu gwefan os oes ganddynt un.

4.16 Rydym wedi gosod gofyniad newydd ar gynigwyr i gyhoeddi'r dogfennau allweddol hyn ar wefan yr awdurdod lleol yn ogystal â'u gwefan eu hunain (os yn wahanol) ac wedi adolygu ac ymestyn y rhestr o bartïon â buddiant y mae'n rhaid rhoi gwybod iddynt bod y dogfennau hyn ar gael a'u bod yn gallu cael copi ar gais.

4.17 Rydym hefyd wedi ymestyn yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn y ddogfen ymgynghori ac yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, y mae'n rhaid eu cynnal bellach ar gyfer pob cynnig statudol. Y nod yw sicrhau bod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn gadarn a bod y ddogfen ymgynghori a'r asesiad effaith yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi rhanddeiliaid i ddarparu ymateb gwybodus.

4.18 Rydym hefyd wedi egluro'r gofynion presennol yn y Cod lle'r oedd angen gwneud hynny, wedi gwella fformat y Cod er hwylustod ac wedi achub ar y cyfle i gywiro unrhyw wallau gramadegol neu argraffyddol.

**Dyletswydd i ymgynghori**

4.19 Yn unol ag adran 39 o Ddeddf 2013, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau canlynol ar ddrafft o'r Cod (neu God diwygiedig) cyn cyhoeddi neu ddiwygio Cod:

- pob awdurdod lleol,
- corff llywodraethu pob ysgol a gynhelir,
- Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru,
- y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr),
- unrhyw berson arall sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.

4.20 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar y Cod diwygiedig drafft o 8 Tachwedd 2024 i 14 Chwefror 2025. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru ac ynghyd â'r ymgynghoreion statudol uchod, tynnwyd sylw rhanddeiliaid allweddol eraill ato gan gynnwys Comisiynydd Plant Cymru a'r undebau addysg.

4.21 Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael yn: Cod trefniadaeth ysgolion | LLYW.CYMRU

## 5. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

5.1 Nid yw'r Cod yn is-ddeddfwriaeth a wneir drwy offeryn statudol ac felly mae y tu allan i'r diffiniad o is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol fel y

nodir yn adran 76(2)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a ‘Cod asesiad effaith rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth’. Am y rheswm hwnnw, nid oes angen asesiad effaith rheoleiddiol.

5.2 Fodd bynnag, rydym wedi ystyried goblygiadau'r newidiadau a wnaed i'r Cod. Mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau hyn yn gwneud diwygiadau ffeithiol er mwyn adlewyrchu deddfwriaeth neu i egluro'r gofynion presennol. Nid yw'r newidiadau hyn yn newid y polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd arwyddocaol, na'r ffordd mae'r polisi'n cael ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol. Nid ydym yn ystyried bod y newidiadau hyn yn gosod beichiau ariannol ychwanegol ar awdurdodau lleol neu gynigwyr eraill.

## 6. Adolygiad ar ôl gweithredu

6.1 Bydd y Cod yn cael ei adolygu'n barhaus tra bydd mewn grym. Ein nod yw cynnal adolygiad llawn o'r Cod bob 5 mlynedd neu'n gynharach os oes angen. Fel rhan o hyn, byddwn yn parhau i gysylltu â Grŵp Darpariaeth Lleoedd Ysgolion Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru sydd â chynrychiolaeth o bob awdurdod lleol.